S4C /

# Ymateb S4C i'r Ymgynghoriad ar Adolygiad Siarter y BBC
*Diogelu Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Cymraeg*

## Crynodeb Gweithredol

Mae S4C yn croesawu'r Papur Gwyrdd ar Adolygiad Siarter y BBC a'i gydnabyddiaeth o'n rôl fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg unigryw ac annibynnol sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled Cymru a'r DU. Mae'n hanfodol diogelu safle unigryw S4C o fewn tirwedd cyfryngau'r DU y tu hwnt i gyfnod y Siarter bresennol er mwyn sicrhau dyfodol hirdymor cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg.

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gonglfaen i gymdeithas y DU, gan ddarparu cynnwys dibynadwy sy'n adlewyrchu ein hamrywiaeth, cefnogi ymgysylltu democrataidd, ac ysgogi arloesedd creadigol. Mae S4C yn gwneud cyfraniad unigryw i'r system hon, gan ddarparu cynnwys o safon uchel ar draws ystod eang o genres a phlatfformau. Mae ein gwaith yn cynnal y sector creadigol yng Nghymru, yn datblygu talent, ac yn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fyw ym mywyd bob dydd. Mae darlledu ieithoedd lleiafrifol yn ganolog i ddilysrwydd a chyrhaeddiad system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU.

Mae partneriaeth unigryw S4C gyda'r BBC yn cyfuno ein hannibyniaeth olygyddol a gweithredol â maint a seilwaith technolegol y BBC, gan alluogi cynnwys Cymraeg i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach yn effeithlon ac yn effeithiol. Gyda'n gilydd, gallwn ddarparu gwerth cyhoeddus wrth gefnogi ecosystem gyfryngau ffyniannus ac amrywiol yng Nghymru ac ar draws y DU.

**Prif alwadau i ddiogelu dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg:**

**Cyllid Cynaliadwy ar gyfer S4C**
- Rhaid i Lywodraeth y DU ddarparu sicrwydd hirdymor y tu hwnt i fis Mawrth 2028, gan gynyddu cyllid cyhoeddus S4C yn fwy na lefel chwyddiant CPI er mwyn sicrhau gwasanaeth Cymraeg sy'n gallu ffynnu.
- Ni ddylai ehangu gweithgarwch masnachol y BBC danseilio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill fel S4C.
- Rhaid i unrhyw ddiwygiadau i'r broses o bennu ffi'r drwydded ddiogelu cyllid S4C, ei hannibyniaeth a'i gallu i gyfrannu at luosogrwydd y cyfryngau ac economi greadigol y DU.
- Dylai S4C gael ei chydnabod yn benodol o fewn cwmpas ffi'r drwydded fel rhan greiddiol o system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU, gan gryfhau'r cytundeb cymdeithasol gyda'i chynulleidfaoedd.

**Partneriaeth S4C-BBC i'r Dyfodol**
- Dylai darpariaeth statudol y BBC i S4C gael ei chysylltu â chynnydd chwyddiant CPI er mwyn cynnal ei gwerth mewn termau real, gwarchod safon cynhyrchu, a helpu i gynnal effaith y bartneriaeth.
- Dylai'r Siarter ymgorffori cydweithrediad creadigol teg a thryloyw gydag eraill, gan gynnwys S4C ar gyd-gynyrchiadau a phryniant hawliau, er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a chefnogi'r sector creadigol.
- Dylai gofynion partneriaeth ar y BBC yn y dyfodol sicrhau bod gwasanaethau technoleg a darlledu sy'n cael eu darparu i S4C fel rhan o gytundeb partneriaeth yn cwrdd â safonau uchaf y diwydiant.
- Dylid ymestyn y bartneriaeth rhwng S4C a BBC iPlayer i mewn i gyfnod y Siarter nesaf, gyda gofynion ar y BBC yn rhan o'r Siarter newydd i warantu amlygrwydd ar gyfer cynnwys Cymraeg fel darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus craidd ar ei lwyfannau digidol, a hynny o dan oruchwyliaeth Ofcom.
- Dylai'r Siarter nesaf ffurfioli partneriaethau arloesi teg a strwythuredig, fel bod AI a thechnolegau newydd yn cryfhau gwasanaethau Cymraeg a seilwaith digidol yr iaith.

**Dibenion Cyhoeddus i'r Dyfodol**
- Rhaid ymgynghori ag S4C cyn esblygu'r Dibenion Cyhoeddus, eu hangori yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau, a chydnabod cyfraniad darlledu ieithoedd lleiafrifol.
- Dylai Pwrpas Cyhoeddus newydd sy'n seiliedig ar dwf ymgorffori partneriaethau teg, sydd o fudd i'r ddwy ochr, a chefnogi twf cynaliadwy, lluosogrwydd ac arloesi ledled y DU.

Drwy fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn, gall Llywodraeth y DU helpu i sicrhau bod S4C yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg unigryw i gynulleidfaoedd ledled y DU, cefnogi'r economi greadigol yng Nghymru, a sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

## Cyflwyniad

Mae S4C yn croesawu'r cyfle i ymateb i Bapur Gwyrdd Adolygiad Siarter y BBC. Mae'r Adolygiad yn cynrychioli eiliad arwyddocaol i ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnig cyfle i ddiogelu eu rôl wrth adlewyrchu cynulleidfaoedd, cefnogi cymunedau a chyfoethogi cymdeithas am flynyddoedd i ddod.

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn gonglfaen i gymdeithas y DU ers blynyddoedd lawer, gan ddarparu cynnwys dibynadwy o'r radd flaenaf, sy'n adlewyrchu ein hamrywiaeth, cefnogi ymgysylltu democrataidd, ac ysgogi arloesedd ar draws platfformau darlledu a digidol. Mae'r BBC wedi bod yn ganolog i'r genhadaeth hon, gan gyrraedd cynulleidfaoedd o bob oedran, cynhyrchu cynnwys sy'n ddifyr ac yn addysgiadol, a chefnogi economi greadigol ehangach y DU – yn enwedig drwy ei strategaeth *Across the UK* yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae S4C yn rhannu'r ymrwymiad hwn. Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus annibynnol Cymraeg, rydym yn chwarae rôl benodol o fewn tirwedd y cyfryngau yn y DU. Rydym yn darparu cynnwys Cymraeg o safon ar draws ystod eang o blatfformau a genres – o newyddion a rhaglenni plant i ddrama a chwaraeon – gan sicrhau bod cynulleidfaoedd Cymraeg yn cael eu gwasanaethu'n llawn o fewn system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU.

Nid yw darlledu ieithoedd lleiafrifol yn ymylol i'r system honno. Mae'n ganolog i'w dilysrwydd, gan helpu i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wir yn adlewyrchu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol y DU ac yn parhau i fod yn berthnasol i'w holl gymunedau.

Ers dros ddeugain mlynedd, mae S4C wedi cysylltu cynulleidfaoedd â'r Gymraeg, meithrin y sector creadigol, a hyrwyddo cynnwys gwreiddiol ar draws pob genre. Mae annibyniaeth greadigol a strategol yn ganolog i allu S4C i gomisiynu cynnwys unigryw, cynhenid Gymreig wedi'i lywio gan ac ar gyfer ein cynulleidfaoedd, ac i bennu ein cyfeiriad hirdymor er eu budd nhw. Mae S4C hefyd yn cynrychioli pwynt comisiynu ychwanegol o fewn system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU, gan greu lluosogrwydd cyfle i gynhyrchwyr a chryfhau gwytnwch y sector creadigol yng Nghymru.

Mae ein partneriaeth unigryw gyda'r BBC yn ategu'r annibyniaeth hon, gan gyfuno annibyniaeth olygyddol a gweithredol S4C â maint a seilwaith technolegol y BBC i ymestyn cyrhaeddiad, rhannu arbenigedd a sicrhau effeithlonrwydd. Gyda'n gilydd, mae'r model hwn yn darparu gwerth cyhoeddus cryf wrth gefnogi tirwedd cyfryngau fywiog a chystadleuol yng Nghymru.

Mewn cyfnod o newid aruthrol o ran technoleg ac arferion gwylio, rhaid i S4C a'i chynnwys barhau i fod yn gynaliadwy, yn ddarganfyddadwy ac yn ddylanwadol i barhau i ddarparu gwerth i'n cynulleidfaoedd, yr economi greadigol, a'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

Mae S4C wedi nodi ein huchelgais yn ein strategaeth *Mwy na Sianel Deledu*, sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth Cymraeg sydd â'r gynulleidfa wrth ei graidd. Sefydlwyd S4C i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei lle priodol yn y cyfryngau cyfoes i'w gwarchod, ei dathlu, ei helpu i dyfu a'i gwneud yn rhan naturiol o fywyd bob dydd. Gan adeiladu ar hynny, mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd S4C yn trawsnewid i fodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd, gan ailddiffinio sut mae cynnwys yn cael ei gomisiynu, ei ddosbarthu a'i ddarganfod fel bod straeon a safbwyntiau Cymreig yn cyrraedd cynulleidfaoedd ble bynnag y byddant.

Wrth wraidd y weledigaeth hon mae rôl S4C wrth gynnal a chryfhau'r Gymraeg. Mae darlledu Cymraeg yn chwarae rhan hanfodol wrth wreiddio'r iaith ym mywyd bob dydd, ysbrydoli siaradwyr newydd, a sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn weladwy ac yn fywiog ar draws cenedlaethau. Fel gydnabuwyd yn Setliad Ffi'r Drwydded 2022, mae gwaith S4C yn gwneud cyfraniad pwysig at amcanion Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu ei defnydd dyddiol erbyn 2050. Drwy greu cynnwys gafaelgar a deniadol y mae cynulleidfaoedd yn dewis ei wylio, ei rannu ac ymgysylltu ag ef, mae S4C yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu, nid yn unig fel treftadaeth i'w gwarchod, ond fel iaith fyw diwylliant, creadigrwydd a bywyd cyhoeddus cyfoes yn y DU.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer S4C yn llywio ein cyfraniad at broses Adolygu Siarter y BBC, gan sicrhau bod ein safbwyntiau ar gyllid, partneriaeth a'r dibenion cyhoeddus yn helpu i lunio fframwaith a fydd yn sicrhau dyfodol cynnwys Cymraeg ac yn cefnogi ecosystem greadigol ffyniannus ledled Cymru a'r DU ehangach.

**Beth sydd yn y fantol?**

Bydd penderfyniadau sy'n deillio o Adolygiad Siarter y BBC yn effeithio'n sylweddol ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ledled y DU, ac ar S4C yn arbennig. Mae'r materion allweddol yn cynnwys:

- **Sicrwydd ariannol hirdymor i S4C** – Heb setliad cynaliadwy, mae risg wirioneddol i ddyfodol cynnwys Cymraeg gwreiddiol, ac i gynaliadwyedd y sector cynhyrchu annibynnol ledled Cymru.
- **Amlygrwydd ar-lein i'r Gymraeg** – Wrth i gynulleidfaoedd droi'n gynyddol at ffrydio, mae angen sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn weladwy ac yn hawdd ei ddarganfod.
- **Ecosystem greadigol Cymru** – Mae S4C yn sbardun allweddol i'r diwydiannau creadigol, gan gefnogi swyddi, datblygiad sgiliau a chyfleoedd ledled Cymru. Byddai unrhyw ostyngiad yn yr adnodd ar gael i S4C yn effeithio ar yr economi greadigol ehangach yng Nghymru.
- **Cysylltu cynulleidfaoedd â'r Gymraeg** – Mae S4C yn rhan annatod o wead diwylliannol Cymru, yn bont rhwng cynulleidfaoedd a'r Gymraeg, ac yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i dalwyr ffi'r drwydded deledu.

Mae'r ystyriaethau hyn yn sail i ymateb S4C i Adolygiad Siarter y BBC. Yn unol â hynny, mae'r dystiolaeth hon hwn yn canolbwyntio ar dair pennod gysylltiedig:

**1. Cyllid Cynaliadwy ar gyfer S4C**
**2. Partneriaeth S4C-BBC i'r Dyfodol**
**3. Dibenion Cyhoeddus i'r Dyfodol**

## 1. Cyllid Cynaliadwy ar gyfer S4C

Mae S4C yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth y DU o bwysigrwydd cyllid cynaliadwy ar gyfer S4C a darlledu ieithoedd lleiafrifol, fel yr adlewyrchir drwy'r Papur Gwyrdd. Mae'r ymrwymiad hwn yn tanlinellu'r rôl hanfodol y mae gwasanaethau fel S4C, BBC Radio Cymru, ac MG Alba yn ei chwarae wrth sicrhau bod system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU yn parhau i ymateb i gynulleidfaoedd ar draws pob rhan o'r DU.

I S4C, mae cynaliadwyedd yn dibynnu ar ddau ffactor cysylltiedig: adnoddau digonol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg unigryw ac o'r radd flaenaf, a sefydlogrwydd ariannol i gynllunio, buddsoddi ac arloesi'n strategol. Heb y ddau, ni all darlledu ieithoedd lleiafrifol ffynnu, ni ellir gwasanaethu cynulleidfaoedd yn llawn, ac mae'r buddion ehangach i Gymru a'r diwydiannau creadigol yn y DU yn cael eu lleihau.

Mae dealltwriaeth S4C o gyllid cynaliadwy yn cwmpasu nid yn unig lefel yr adnodd ond hefyd y fframwaith ehangach sy'n cefnogi gwytnwch hirdymor. Mae'n cynnwys y broses o bennu lefelau cyllid, y mecanweithiau a'r model y mae'r cyllid hynny'n cael eu darparu drwyddynt, a'r effaith gymdeithasol ac economaidd y mae buddsoddiad S4C yn ei chynhyrchu ledled Cymru.

**Yr Egwyddor o Gyllid Digonol**

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddyletswydd statudol i sicrhau cyllid digonol ar gyfer S4C, a nodir yn adran 61 o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd). Mae hyn yn gofyn am gyllid digonol i dalu am y gost o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus S4C a threfnu eu darlledu neu eu dosbarthu.

Ers 1982, mae S4C wedi cael ei hariannu drwy sawl model gwahanol, ond mae'r darpariaethau statudol wastad wedi amlinellu'r gofyniad ariannol i alluogi S4C i ddarparu gwasanaeth Cymraeg o safon.

Er enghraifft, i gydnabod maint llai S4C ac felly ei sgôp llai i amsugno amrywiadau cyllid o flwyddyn i flwyddyn – fel sy'n digwydd gydag unrhyw gynnydd a gostyngiadau mewn incwm ffi'r drwydded a ddaw gan aelwydydd – dyfarnwyd cyfanswm o £88.85m y flwyddyn i S4C yn Setliad Ffi'r Drwydded 2022, i godi gyda chwyddiant CPI o fis Ebrill 2024 ymlaen. Bydd hynny’n £100.67m erbyn blwyddyn ariannol 2026/27.

Mae'r sicrwydd ariannol hwn ers 2022 wedi bod yn allweddol, gan ganiatáu i S4C fuddsoddi mewn gwasanaethau digidol ac i barhau i ddarparu cynnwys Cymraeg unigryw ar draws genres a phlatfformau. Mae hefyd wedi caniatáu inni reoli pwysau chwyddiant a chynllunio'n strategol yn hytrach nag ymateb i amrywiadau tymor byr. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y pwysau ar incwm ffi'r drwydded ac ar yr amgylchedd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

**Beth yw 'Digonol'?**

Mae gan S4C ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae cyllid digonol yn ei olygu’n ymarferol. Nid yw ariannu digonol yn ymwneud â bodloni isafswm gofynion statudol yn unig, mae'n ymwneud â chael yr adnoddau a'r sefydlogrwydd i:

1. Wasanaethu pob carfan o’r gynulleidfa,
2. Darparu cynnwys Cymraeg unigryw o safon,
3. Sicrhau bod y cynnwys hwnnw ar gael ar y platfformau a ddefnyddir fwyaf,
4. Cystadlu am amlygrwydd mewn byd cyfryngau diderfyn, a
5. Gwneud cyfraniad ystyrlon i'r diwydiannau creadigol a'r economi ehangach yng Nghymru.

**Model Ffi'r Drwydded**

Ers mis Ebrill 2022, mae holl arian cyhoeddus S4C wedi dod o ffi'r drwydded. Cyn blwyddyn ariannol 2022/23, roedd S4C wedi profi cyfnod hir o gyllid craidd wedi’i rewi.

Daeth Setliad Ffi'r Drwydded 2022 â newid sylweddol i S4C. Darparwyd £7.5m ychwanegol y flwyddyn i gryfhau cynnig digidol S4C, gyda'r cyllid hwn yn codi gyda chynnydd CPI o fis Ebrill 2024 tan ddiwedd cyfnod y Siarter yn unol â setliad y BBC. Drwy hyn, gweithredodd Llywodraeth y DU argymhellion Adolygiad Annibynnol 2018 o S4C, a ddaeth i'r casgliad y byddai setliadau aml-flwyddyn, ac osgoi amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn drwy’r cymorth grant, yn darparu'r sefydlogrwydd angenrheidiol i S4C ffynnu.

Mae'r sefydlogrwydd hwnnw bellach yn amlwg yn dwyn ffrwyth. Mae sicrwydd ariannol am bum mlynedd yn galluogi S4C i gomisiynu'n uchelgeisiol, buddsoddi mewn gwasanaethau digidol, negodi cyd-gynyrchiadau a sicrhau hawliau chwaraeon aml-flwyddyn, a rhoi hyder i'r sector cynhyrchu annibynnol ledled Cymru. Mae'n cefnogi cyfresi sy'n dychwelyd, amserlen ddatblygu hir ar gyfer ffilm a drama, a thwf sgiliau parhaus o fewn yr economi greadigol.

Mae cyllid drwy ffi'r drwydded hefyd wedi cynnig manteision ehangach. Mae’n darparu ffynhonnell incwm ragweladwy ac annibynnol sy’n atebol i'r cyhoedd, gan ddiogelu annibyniaeth olygyddol a strategol S4C tra’n sicrhau bod aelwydydd Cymraeg sy'n talu ffi'r drwydded yn gweld budd uniongyrchol ar ffurf cynnwys o safon sy’n berthnasol i’w bywydau.

Yn draddodiadol, mae ffi'r drwydded wedi bod yn sail i natur gyffredinol a chynhwysol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, fel y mae'r BBC wedi amlinellu eu hymateb i'r Papur Gwyrdd, mae'r sail honno yn dod o dan bwysau cynyddol wrth i lai o aelwydydd gyfrannu. Mae S4C yn credu y dylai Llywodraeth y DU ystyried ffyrdd o adfer a chynnal y sail gyffredin honno, er mwyn sicrhau y gall cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus barhau i wasanaethu pob cynulleidfa a chyfrannu at ecosystem cyfryngau iach a gwydn.

Byddai sicrwydd cyllido cliriach y tu hwnt i fis Mawrth 2028 yn galluogi S4C i gynllunio'n hyderus ar gyfer y tymor hwy, buddsoddi mewn arloesi digidol, darparu cynnwys dylanwadol ar draws genres, a pharhau i wneud cyfraniad ystyrlon i economi greadigol Cymru.

> ***Dylai Llywodraeth y DU ddarparu sicrwydd cyllido hirdymor i S4C y tu hwnt i fis Mawrth 2028, a hefyd ystyried sut y gellir cynnal yr egwyddor o gyllido cyffredinol ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.***

**Darparu Gwerth am Arian**

Mae S4C yn cydnabod pwysigrwydd cydbwyso buddsoddiad cyhoeddus gyda'r angen i gadw ffi'r drwydded yn fforddiadwy. Ar yr un pryd, mae ein maint cymharol a'n rôl bwysig yn y sector creadigol yng Nghymru yn golygu bod sefydlogrwydd a sicrwydd yn arbennig o bwysig i gynnal cynnwys Cymraeg o safon a chefnogi cyflogaeth yn y sector ehangach. Byddai unrhyw ostyngiad mewn cyllid termau real yn effeithio'n uniongyrchol ar gynnwys, gwasanaethau a buddsoddiad yn economi greadigol yng Nghymru.

Yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf, mae S4C eisoes wedi sicrhau arbedion sylweddol wrth gynnal safon ac amrywiaeth ein gwasanaethau craidd. Mae'r mesurau hyn wedi cynnwys lleihau nifer y staff dros 20%, torri costau gweinyddol i ddim ond 4% o gyfanswm y gyllideb, adleoli ein pencadlys i Gaerfyrddin, cyd-leoli gweithrediadau darlledu a thechnegol gyda BBC Cymru, a gweithio'n agos gyda chynhyrchwyr i leihau costau cynhyrchu mewn ymateb i chwyddiant. Mae ein comisiynu yn parhau i fod yn hynod gost-effeithlon, o leiaf 25-33% yn is na genres tebyg ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Mae gan cyd-gynyrchiadau a chronfeydd cystadleuol, megis Cronfa Cynnwys Cynulleidfaoedd Ifanc y BFI (sydd bellach wedi'i chau), hefyd wedi darparu gwerth ychwanegol pellach.

Mae'r dull hwn yn caniatáu i S4C gynnal cynnwys Cymraeg o safon a chefnogi datblygu sgiliau a chyflogaeth yng Nghymru, gan gyfrannu dros £150m y flwyddyn at economi Cymru a chefnogi mwy na 2,500 o swyddi ledled Cymru. Mae cyfran sylweddol o wariant S4C yn cael ei gyfeirio at ardaloedd cymharol ddifreintiedig, gyda 57% yn cael ei wario y tu allan i Gaerdydd. Mae hyn yn helpu i ysgogi economïau lleol, datblygu talent, a chynnal cyflogaeth lle mae ei hangen fwyaf.

Er enghraifft, ffilmiwyd cyfres ddrama S4C *Bariau* yn Stiwdio Aria, Ynys Môn. Gyda chyfleusterau stiwdio modern, mae Aria yn cefnogi cynyrchiadau lleol a rhyngwladol wrth feithrin talent a sgiliau yng ngogledd Cymru. Helpodd buddsoddiad S4C i ddarparu cyflogaeth i'r gymuned leol, gan gynnwys cyn-weithwyr o'r hen ffatri 2 Sisters, drwy gynnig rolau tymor byr a hirdymor ar *Bariau* a *Rownd a Rownd*. Mae hyn yn dangos sut mae comisiynau S4C yn cynnal economïau lleol yn uniongyrchol, yn datblygu sgiliau, ac yn cefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith.

**Cefnogi'r BBC i gynhyrchu mwy o refeniw masnachol**

Mae'r Papur Gwyrdd yn ystyried a allai'r BBC gynyddu refeniw masnachol i ychwanegu at gyllid cyhoeddus. Mae S4C yn cydnabod gwerth ffrydiau incwm ychwanegol, ar yr amod nad ydynt yn peryglu amcanion gwasanaeth cyhoeddus na'r ecosystem cyfryngau ehangach.

Gallai rhai o'r opsiynau a gynigir, megis caniatáu i'r BBC gario hysbysebion ar draws ei holl wasanaethau, gael effaith andwyol ar y farchnad ehangach ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, gan gynnwys S4C. Mae cryfder ecosystem cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus cymysg a chytbwys y DU wedi helpu i greu sector ffyniannus, gan gynnig dewis, lluosogrwydd a chynnwys o safon i gynulleidfaoedd ar draws y cenhedloedd a'r rhanbarthau. Gallai ehangu gweithgarwch masnachol ar draws gwasanaethau'r BBC newid y dirwedd gystadleuol a thanseilio'r cydbwysedd hwn. Dylai diogelu ecosystem cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus iach ac amrywiol fod yn flaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd ledled y DU yn parhau i elwa ar ddarpariaeth gref ac amrywiol.

I S4C, cyllid cyhoeddus yw'r brif fodd o gefnogi cynnwys Cymraeg unigryw. Mae gan S4C gylch gwaith a strategaeth i gynhyrchu refeniw masnachol; fodd bynnag, dim ond cyfran fach iawn o'r adnoddau cyffredinol (0.6%) sy'n dod o incwm masnachol. Mae hyn yn adlewyrchu maint S4C, maint cymharol gyfyngedig cynulleidfaoedd Cymraeg, ac felly'r potensial masnachol cyfyngedig ar gyfer cynnwys Cymraeg. Dylai unrhyw ddull o gynyddu refeniw masnachol y BBC ystyried y goblygiadau i ddarpariaeth mewn ieithoedd lleiafrifol ac i ecosystem ehangach cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gan sicrhau bod sicrwydd a sefydlogrwydd cyllido S4C yn cael eu diogelu.

> ***Dylai unrhyw ehangu ar weithgarwch masnachol y BBC ddiogelu ecosystem ehangach cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac osgoi tanseilio darlledwyr eraill fel S4C.***

**Newidiadau i'r penderfyniad ar ffi'r drwydded**

Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi bod Llywodraeth y DU yn ystyried diwygiadau i'r broses o bennu cost ffi'r drwydded, gyda'r nod o gynyddu tryloywder a chefnogi annibyniaeth y BBC. Mae S4C yn cydnabod gwerth proses glir a chadarn, ac ni ddylai unrhyw newidiadau gyfaddawdu ein cyllid, ein hannibyniaeth, na'n gallu i wasanaethu cynulleidfaoedd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dal dyletswydd statudol i sicrhau bod S4C yn cael ei ariannu'n ddigonol, a dylai'r egwyddor hon barhau i fod yn ganolog i unrhyw ddiwygiadau i'r broses.

> ***Dylai unrhyw ddiwygiadau i'r broses o benderfynu ar ffi'r drwydded ddiogelu cyllid ac annibyniaeth S4C, gan sicrhau y gall S4C barhau i weithredu gydag annibyniaeth strategol a golygyddol wrth gyfrannu at luosogrwydd, darpariaeth ieithoedd lleiafrifol, ac economi greadigol y DU.***

**Diwygio'r model ffi'r drwydded**

Mae S4C yn cydnabod bod Llywodraeth y DU yn archwilio diwygiadau posibl i ffi'r drwydded er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, mynd i'r afael â'r gostyngiad yn yr aelwydydd sy'n talu am y drwydded, a lleddfu pwysau costau byw. Er ein bod yn cydnabod yr angen am yr ystyriaethau hyn, dylai unrhyw newid fod yn gymesur ac yn bwyllog er mwyn osgoi effeithiau anfwriadol ar ddarlledu ieithoedd lleiafrifol.

I S4C, mae sicrwydd ariannol aml-flwyddyn a chyllid digonol yn hanfodol ar gyfer comisiynu, buddsoddi strategol, a darparu cynnwys Cymraeg o safon i gynulleidfaoedd ar draws platfformau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cyllid sy'n cael ei osod yn annibynnol ar amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn yn incwm ffi'r drwydded, ac sy'n cynyddu yn unol â chwyddiant CPI. Mae hyn yn darparu'r sefydlogrwydd sydd ei angen ar S4C i gynllunio yn hyderus, cefnogi'r economi greadigol yng Nghymru, a darparu gwerth i gynulleidfaoedd Cymraeg sy'n talu ffi'r drwydded.

Yn y Papur Gwyrdd, mae Llywodraeth y DU wedi gofyn am farn ynghylch a ellid cynnwys gweithgareddau neu wasanaethau ychwanegol o fewn cwmpas y drwydded deledu. Dylai Llywodraeth y DU ystyried cynnwys S4C fel gwasanaeth y mae'n ofynnol i aelwydydd feddu trwydded deledu i'w wylio. Gallai dull o'r fath gryfhau'r cytundeb cymdeithasol rhwng cynulleidfaoedd ac S4C, gan atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng cyllid cyhoeddus a darparu cynnwys diwylliannol o safon. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod cynnwys S4C eisoes ar gael drwy BBC iPlayer, sy'n ymestyn cyrhaeddiad rhaglenni S4C tra hefyd yn cysylltu cyllid ffi'r drwydded yn uniongyrchol â mynediad cynulleidfaoedd.

> ***Byddai cydnabyddiaeth benodol o S4C yn y ffi'r drwydded yn adlewyrchu ei rôl fel rhan greiddiol o system cyfryngau cyhoeddus y DU.***

**Cefnogi Cyllid Cynaliadwy ar gyfer Darlledu Ieithoedd Lleiafrifol ac S4C**

Mae gallu S4C i wasanaethu cynulleidfaoedd, buddsoddi mewn arloesedd digidol, a chefnogi'r sector greadigol ledled Cymru yn dibynnu ar gyllid cynaliadwy a rhagweladwy. Er mwyn i S4C gynnal ei wasanaeth craidd, mae'r dystiolaeth sy'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd ar gyfer y DCMS yn dangos bod cynnydd CPI+ yn debygol o fod yn angenrheidiol.

Yn ogystal, mae S4C yn cynnig y dylid cysylltu darpariaeth statudol y BBC, sydd werth £20.08m (2026/27) – ac yn un o elfennau allweddol y bartneriaeth rhwng S4C a'r BBC – â chynnydd CPI. Byddai hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cadw ei gwerth go iawn dros amser, gan gryfhau'r bartneriaeth greadigol rhwng S4C a'r BBC, a darparu cynnwys Cymraeg unigryw o safon i gynulleidfaoedd ar draws ystod o blatfformau.

Mae'r trefniant cyllido presennol yn darparu sylfaen gadarn. Mae'n cynnig sefydlogrwydd a gwelededd aml-flwyddyn, gan alluogi S4C i gynllunio'n strategol, comisiynu cynnwys unigryw a dylanwadol, buddsoddi mewn gwasanaethau digidol, a chydweithio ar gyd-gynyrchiadau, tra’n diogelu ein hannibyniaeth olygyddol a strategol. Mae ei ariannu drwy ffi'r drwydded hefyd yn atgyfnerthu'r cytundeb cymdeithasol rhwng S4C ac aelwydydd Cymraeg a Chymreig, gan gysylltu cyllid cyhoeddus yn uniongyrchol â'r cynulleidfaoedd y mae'n bodoli i'w gwasanaethu.

Mae S4C yn gweithredu o fewn cyd-destun penodol sy'n siapio ei hanghenion cyllido a gweithredol. Er bod S4C wedi ystyried ystod o ddulliau ariannu amgen, mae pob un ohonynt yn cynnwys ystyriaethau ynghylch rhagweladwyedd, cynaliadwyedd a'r gallu i gynnal gwasanaethau o safon. Rhaid i unrhyw fodel yn y dyfodol gadw egwyddorion craidd cyllid digonol, rhagweladwy a chynaliadwy, ar gyfer S4C ac ar gyfer darlledu ieithoedd lleiafrifol yn ehangach.

Drwy gynnal yr egwyddorion hyn, gall S4C barhau i ddarparu rhaglenni Cymraeg unigryw ar draws platfformau, cefnogi'r economi greadigol yng Nghymru, a chyfrannu at ecosystem cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ffyniannus ledled y DU.

> ***Dylai cyllid cyhoeddus S4C gynyddu ar raddfa CPI+ er mwyn diogelu darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg cynaliadwy.***

## 2. Partneriaeth S4C-BBC i'r Dyfodol

Mae Adolygiad Siarter y BBC yn gyfle pwysig i fyfyrio ar y bartneriaeth hirhoedlog ac unigryw rhwng S4C a'r BBC, ac ystyried sut y gellir ei chryfhau a'i moderneiddio ar gyfer 2028 a thu hwnt. Wrth i arferion cynulleidfaoedd esblygu, a chyfryngau gwasanaeth cyhoeddus weithredu mewn amgylchedd cynyddol fyd-eang a digidol, mae'n hanfodol bod y bartneriaeth hon yn parhau i ddarparu effaith, gwerth ac amlygrwydd i gynnwys Cymraeg ar draws pob platfform.

Ers lansio S4C yn 1982, mae ein perthynas â BBC Cymru Wales wedi bod yn un o bileri canolog cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg. Mae'r berthynas hon wedi galluogi cynulleidfaoedd Cymru i gael mynediad at newyddion dibynadwy, rhaglenni diwylliannol arwyddocaol, a dramâu o safon ar draws sawl platfform. Rydym hefyd wedi ceisio canfod effeithlonrwydd drwy gyd-leoli ein gwasanaethau darlledu a thechnegol gyda BBC Cymru i Sgwâr Canolog Caerdydd. Heddiw, gyda holl arian cyhoeddus S4C yn deillio o ffi'r drwydded, ein barn ni yw bod yn rhaid i'r bartneriaeth sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn darparu'r gwerth mwyaf posibl i gynulleidfaoedd, tra'n cadw eglurder ynghylch ein rôl unigryw a'n hannibyniaeth olygyddol a gweithredol.

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd S4C a'r BBC Gytundeb Partneriaeth, Cyllid ac Atebolrwydd, yn nodi'r fframwaith ar gyfer cydweithio yn ystod cyfnod presennol y Siarter hyd at ddiwedd 2027. Wrth i Siarter newydd agosáu, mae cyfle clir i adnewyddu a diogelu'r fframwaith hwn yn y dyfodol, gan sicrhau ei fod yn

adlewyrchu'r newidiadau mewn technoleg, modelau dosbarthu a disgwyliadau cynulleidfaoedd, tra'n cynnal cryfderau'r berthynas bresennol.

**Cyflenwad Statudol y BBC**

Mae'r cyflenwad rhaglenni "10 awr yr wythnos" yn draddodiadol wedi bod yn biler canolog partneriaeth S4C-BBC. Ers 1982, mae BBC Cymru wedi darparu rhai o gonglfeini amserlen S4C, gan gynnwys *Pobol y Cwm*, rhaglenni newyddion Cymraeg, rhywfaint o chwaraeon byw, a darllediadau cynhwysfawr o'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod yn rhan annatod o wasanaethau S4C ac wedi cael eu gwerthfawrogi'n gyson gan ein cynulleidfaoedd.

Er bod y fframwaith statudol hwn wedi'i fynegi yn draddodiadol fel ymrwymiad i oriau darlledu llinol, mae'r dirwedd cyfryngau lle mae'r gofynion hynny yn berthnasol wedi newid yn sylfaenol. Mae Deddf y Cyfryngau 2024 yn darparu mwy o hyblygrwydd o ran sut y gellir darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus drwy ganiatáu i S4C a'r BBC gytuno ar drefniadau amgen addas. Mae'r moderneiddio hwn yn galluogi sicrhau bod y trefniadau cyflenwi statudol yn adlewyrchu patrymau defnydd cyfoes, gan gynnwys dosbarthu digidol a gwylio ar-alw. Mae gwelliannau diweddar y bartneriaeth iPlayer rhwng S4C a'r BBC yn enghraifft ymarferol o sut y gall y berthynas statudol esblygu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd heddiw.

Wrth edrych y tu hwnt i 2027, mae’n bwysig nid yn unig moderneiddio sut mae'r cyflenwad statudol yn gweithredu, ond hefyd i ddiogelu ei werth mewn termau real. Y gwerth ariannol a briodolir i'r cyflenwad statudol yn 2026/27 yw £20.08m. Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd o 1.4% ar y flwyddyn flaenorol, roedd ei werth yn wastad am flynyddoedd lawer, gan arwain at ostyngiad mewn termau real dros amser. Heb fecanwaith i adlewyrchu chwyddiant mewn setliadau yn y dyfodol, mae’n debygol y byddai cyfraniad y BBC yn parhau i ostwng mewn termau real, gan wanhau cryfder y ddarpariaeth Gymraeg.

Dylai fframwaith wedi'i adnewyddu gynnwys mecanwaith clir sy'n cysylltu gwerth y ddarpariaeth statudol â chynnydd CPI yn y Setliad Ffi'r Drwydded. Byddai dull o'r fath yn sicrhau cynaliadwyedd, yn rhoi sicrwydd cynllunio i S4C a BBC Cymru, ac yn cadw effaith cyfraniad statudol y BBC at ddarpariaeth Gymraeg drwy gydol cyfnod nesaf y Siarter.

> ***Dylai darpariaeth statudol y BBC i S4C fod yn gysylltiedig â chynnydd CPI er mwyn diogelu ei werth mewn termau real, sicrhau safon cynhyrchu, a chynnal y bartneriaeth S4C-BBC.***

**Cydweithio Creadigol i Weld Cymru’n Ffynnu**

Mae strategaeth S4C yn cydnabod ein bod yn fwy na sianel deledu: rydym yn sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus modern, aml-blatfform, gyda rôl ganolog wrth gefnogi'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'r economi greadigol. Mae un o'n tair blaenoriaeth strategol – *Cydweithio i Weld Cymru’n Ffynnu* – yn adlewyrchu ein cred y gall partneriaethau helpu i dyfu cynulleidfaoedd a chreu cyfleoedd economaidd ehangach ledled Cymru.

Mae cydweithio creadigol rhwng S4C a BBC Cymru wedi cyfrannu at yr uchelgais hwnnw ers peth amser. Mae cyd-gynyrchiadau fel *Y Gwyll / Hinterland*, *Un Bore Mercher / Keeping Faith*, *Craith / Hidden*, a *Pren ar y Bryn / Tree on a Hill* yn dangos sut y gall partneriaethau gynyddu uchelgais greadigol, ymestyn cyrhaeddiad y gynulleidfa, a gwella safon cynhyrchu. Mae'r cydweithio hyn hefyd yn sicrhau bod straeon Cymraeg, sy'n adlewyrchu bywyd, diwylliant a chymunedau yng Nghymru, yn cael eu hadrodd yn Gymraeg a Saesneg.

Wrth i fodelau cynhyrchu a dosbarthu esblygu, bydd yn bwysig bod y fframwaith bartneriaeth yn y dyfodol yn parhau i annog cydweithio a budd i'r ddwy ochr, yn enwedig mewn genres drud megis drama. Cyfres ddrama ddiweddar S4C, *Cleddau (The One that Got Away),* a gyd-gynhyrchwyd gan S4C a Banijay, oedd ein drama fwyaf llwyddiannus erioed ar BBC iPlayer. Cafodd y fersiwn Saesneg ei phrynu wedyn gan y BBC. Er bod caffael pryniannau yn ddilys ac yn aml yn fuddiol, dylai partneriaeth rhwng S4C a'r BBC sy'n addas i'r dyfodol geisio, lle bynnag y bo hynny'n briodol, i gefnogi uchelgais a datblygu ar y cyd o’r

cychwyn cyntaf, gan sicrhau bod cynnwys Cymraeg o safon yn sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar sgiliau creadigol a budd economaidd i Gymru.

Mae cefnogi Cymru i ffynnu hefyd yn golygu sicrhau nad yw cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith, yn enwedig plant a phobl ifanc, dan anfantais strwythurol o ran mynediad at bryniannau rhyngwladol poblogaidd. Bu achosion lle mae caffael hawliau'r DU i deitlau animeiddio rhyngwladol gan y BBC wedi ei gwneud hi'n anodd i S4C sicrhau hawliau fersiwn Gymraeg. Rydym yn croesawu cydweithio cadarnhaol mwy diweddar, gan gynnwys trefniadau o amgylch *Blŵi / Bluey*, sydd wedi profi i fod yn hynod boblogaidd yn ystod ei ddau fis cyntaf ar S4C, ac sy'n dangos bod modd dod o hyd i ddatrysiadau ymarferol.

Nid yw S4C o reidrwydd yn gweithredu mewn cystadleuaeth â'r BBC; mae ein cylch gwaith a'n cynulleidfaoedd yn wahanol a'r naill yn gymar â'r llall. Dylai partneriaeth fodern felly gynnwys dulliau clir a thryloyw o gyd-gynhyrchu a thrafod hawliau, gan sicrhau bod darpariaeth ieithoedd lleiafrifol yn cael ei chryfhau o fewn system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ehangach y DU.

> ***Dylai Siarter y BBC ymgorffori cydweithio creadigol teg a thryloyw gydag eraill, gan gynnwys S4C ar gyd-gynyrchiadau a chaffael hawliau, er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer cynulleidfaoedd a chefnogi'r sector creadigol.***

**Technoleg a Dosbarthu**

Mae technoleg bellach yn sail i'r bartneriaeth rhwng S4C a'r BBC, gan sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn hygyrch, yn amlwg, ac yn cael ei ddarparu i gynulleidfaoedd ble a sut maen nhw ei eisiau.

Er enghraifft, roedd y BBC yn fodlon ad-drefnu ei gapasiti HD mewn cysylltiad ag ail-lansio BBC Three ar y teledu, gan gytuno i ddyrannu capasiti HD ar gyfer S4C yng Nghymru. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd HD i wylwyr S4C fel gwasanaeth Cymraeg ac yn dangos gwerth partneriaeth dechnegol sy'n addas i'r dyfodol.

Mae cydleoli gweithrediadau darlledu a thechnegol i ganolfan ddarlledu BBC Cymru yng Nghaerdydd yn 2021 wedi cyflawni effeithlonrwydd gweithredol, cryfhau cydweithio, a lleihau dyblygu i'r ddau ddarlledwr. Mae S4C yn talu am y gwasanaethau hyn o'r incwm sy'n deillio o ffi'r drwydded, ac mae'r buddsoddiad hwn yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn derbyn yr un sylw a chymorth technegol â gwasanaethau'r BBC. Bydd gwarantu hyn, a chynnal a moderneiddio'r bartneriaeth dechnegol, yn hanfodol i gynnal darpariaeth o ansawdd uchel, cefnogi dosbarthu aml-blatfform, galluogi trawsnewid digidol, a sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd yn effeithiol.

Yn ogystal â chyrchfan ffrydio S4C ei hun, Clic, mae cynnwys S4C wedi bod ar gael ar BBC iPlayer ers 2014, gan roi mynediad i gynulleidfaoedd i ystod eang o raglenni Cymraeg ar draws sawl platfform. Mae'r bartneriaeth newydd rhwng S4C a BBC iPlayer a gytunwyd arnynt o fis Ebrill 2026 yn gam sylweddol ymlaen, gan roi mwy o amlygrwydd i gynnwys S4C, gwell ffyrdd o ddarganfod, a mwy o integreiddio ar draws yr iPlayer. Bydd ymestyn y bartneriaeth hon y tu hwnt i'r cyfnod Siarter bresennol yn helpu i sicrhau presenoldeb digidol cryf ar gyfer cynnwys Cymraeg.

Mae Papur Gwyrdd Llywodraeth y DU yn ceisio barn ar sut y dylai'r BBC sicrhau bod ystod eang o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei hyrwyddo ar draws ei lwyfannau digidol, gan gynnwys gofynion adrodd posibl a rhwymedigaethau rheoleiddiol newydd i warantu amlygrwydd ar wasanaethau digidol fel BBC iPlayer a BBC Sounds.

Wrth i gynulleidfaoedd gael mynediad fwyfwy at gynnwys ar-lein a thrwy ystod o ddyfeisiau, mae Deddf y Cyfryngau 2024 yn cyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd i sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaeth S4C, yn derbyn amlygrwydd ar draws platfformau teledu clyfar. Yn y cyd-destun hwn y dylid cydnabod cynnwys Cymraeg fel cynnig gwasanaeth cyhoeddus craidd, yn enwedig i wylwyr

yng Nghymru. Bydd gwarantu amlygrwydd a ffyrdd o ddarganfod gynnwys Cymraeg yng Nghymru, gan gynnwys cynnwys S4C, ar draws llwyfannau digidol y BBC, yn enwedig iPlayer, yn diogelu ei werth gwasanaeth cyhoeddus ac yn darparu mynediad clir i gynulleidfaoedd at gynnwys diwylliannol berthnasol. Byddai goruchwyliaeth Ofcom o'r trefniadau amlygrwydd hyn yn ychwanegu tryloywder ac atebolrwydd, gan atgyfnerthu amcanion y dirwedd reoleiddio newydd a diogelu gwasanaethau lleiafrifol fel S4C.

> ***Dylai gofynion partneriaeth ar y BBC yn y dyfodol sicrhau bod gwasanaethau technoleg a darlledu sy'n cael eu darparu i S4C fel rhan o gytundeb partneriaeth yn cwrdd â safonau uchaf y diwydiant.***
> ***Dylid ymestyn y bartneriaeth rhwng S4C a BBC iPlayer i mewn i gyfnod y Siarter nesaf, gyda gofynion ar y BBC yn rhan o'r Siarter newydd i warantu amlygrwydd ar gyfer cynnwys Cymraeg fel darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus craidd ar ei lwyfannau digidol, a hynny o dan oruchwyliaeth Ofcom.***
> ***Dylai'r Siarter nesaf ffurfioli partneriaethau arloesi teg a strwythuredig, fel bod AI a thechnolegau newydd yn cryfhau gwasanaethau Cymraeg a seilwaith digidol yr iaith.***

**Arloesi ac AI**

Mae technoleg ac arloesedd yn ganolog i ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Fel y mae'r Papur Gwyrdd yn ei wneud yn glir, mae maint y BBC yn rhoi cyfle unigryw iddo ddatblygu offer a dulliau sydd o fudd i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn ehangach. I S4C, mae'r cyfleoedd hyn yn arbennig o berthnasol i ddarlledu a dosbarthu'r Gymraeg: gallai AI gefnogi isdeitlo, ffyrdd o ddarganfod cynnwys, chwilio llais-i-destun, ac argymell cynnwys yn Gymraeg, gan helpu cynulleidfaoedd i ymgysylltu'n haws â chynnwys gwasanaeth cyhoeddus.

Ar hyn o bryd nid yw arloesi a deallusrwydd artiffisial yn cael eu cynnwys yn ffurfiol yng nghytundeb partneriaeth S4C-BBC. Mae'r Siarter nesaf yn rhoi cyfle i archwilio sut y gellid strwythuro cydweithio yn y meysydd hyn, gan sicrhau bod technolegau newydd o fudd i wasanaethau lleiafrifol, gan gynnwys gwasanaethau Cymraeg y BBC fel Radio Cymru.

Dylai'r Siarter nesaf helpu i ffurfioli fframwaith ar gyfer partneriaethau arloesi teg a buddiol i'r ddwy ochr, fel bod AI neu ddatblygiadau technolegol eraill yn hygyrch i ddarlledwyr lleiafrifol fel S4C. Yn ymarferol, gallai hyn gynnwys cyd-ddatblygu neu gefnogi datrysiadau sy'n cael eu gyrru gan AI ar gyfer darganfod cynnwys a hygyrchedd, gan greu effeithlonrwydd wrth wella profiad y gynulleidfa. Gallai'r BBC hefyd chwarae rhan amlwg wrth ddatblygu offer deallusrwydd yn y Gymraeg, gan gryfhau seilwaith digidol yr iaith.

Drwy ymgorffori arloesedd, deallusrwydd artiffisial a phartneriaeth yn y Siarter, gall y BBC ac S4C sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn parhau i fod yn ddarganfyddadwy, yn berthnasol ac yn wydn mewn amgylchedd cyfryngau cynyddol ddigidol a chystadleuol.

> ***Dylai'r Siarter nesaf warantu partneriaethau arloesi teg a strwythuredig, fel bod AI a thechnolegau newydd yn cryfhau gwasanaethau Cymraeg a seilwaith digidol yr iaith.***

## 3. Dibenion Cyhoeddus ar gyfer y Dyfodol

Mae Dibenion Cyhoeddus y BBC a rhai S4C yn gydnaws. O dan y cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd presennol rhwng S4C a'r BBC, mae S4C – fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus annibynnol a ariennir drwy ffi'r drwydded – yn cydnabod bod ei gwasanaethau'n cyfrannu at gyflawni Dibenion Cyhoeddus y BBC yn gyffredinol i gynulleidfaoedd Cymru. Mae'r pum diben hyn yn adlewyrchu egwyddorion craidd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, yn cyd-fynd â chylch gwaith S4C, ac yn gallu cael eu cyflawni drwy wasanaethau unigryw S4C. Mae'r trefniant hwn yn atgyfnerthu'r cysylltiad

cyfansoddiadol rhwng cyllid ffi'r drwydded a darparu canlyniadau gwasanaethau cyhoeddus i gynulleidfaoedd ledled y DU, gan gynnwys cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg.

O fewn ei chylch gorchwyl, mae S4C yn cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus hyn yn uniongyrchol ac yn unigryw, gan gyfrannu fel partner o fewn y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac fel darlledwr cenedlaethol sydd wedi'i wreiddio yn yr iaith a diwylliant Cymraeg.

Ar draws ei gwasanaethau, mae S4C yn cyfrannu at bob un o'r pum Diben Cyhoeddus presennol:

**Pwrpas Cyhoeddus 1 – darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.**

Mae S4C yn darparu arlwy newyddion a materion cyfoes dibynadwy ar draws platfformau darlledu a digidol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen newyddion *Newyddion S4C* a ddarperir gan y BBC, comisiynau annibynnol hirhoedlog fel *Y Byd ar Bedwar* a *Pawb a'i Farn*, cynnwys cyfryngau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ieuenctid a wnaed gan ac ar gyfer pobl ifanc (*Hansh Dim Sbin*), a *Newyddion Ni* i blant. Mae gwasanaeth newyddion digidol mewnol *Newyddion S4C*, a lansiwyd yn 2020, yn darparu diweddariadau amserol, cynnwys amlgyfrwng, a chynnwys ar-lein hygyrch i gynulleidfaoedd sy'n defnyddio newyddion fwyfwy drwy ddyfeisiau cysylltiedig. Gyda'i gilydd, mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod cynulleidfaoedd Cymraeg o bob oed yn gallu ymgysylltu'n llawn â bywyd dinesig yng Nghymru, y DU a thu hwnt.

**Pwrpas Cyhoeddus 2 – cefnogi dysgu i bobl o bob oed.**

Drwy wasanaethau i blant fel *Cyw*, cynnwys ffeithiol fel *Stori'r Iaith*, a darpariaeth ddigidol i ddysgwyr Cymraeg, mae S4C yn cefnogi dysgu yn ei ystyr ehangaf. Mae ei hallbwn yn hyrwyddo caffael iaith, datblygiad addysgol, gwybodaeth ddiwylliannol, a dealltwriaeth o hanes, gwyddoniaeth, materion cyfoes a materion cymdeithasol mewn ffyrdd sy'n hygyrch a deniadol. Drwy gyfuno darpariaeth blynyddoedd cynnar, adrodd straeon addysgol ac allbwn ffeithiol addysgiadol, mae S4C yn cryfhau llythrennedd diwylliannol ac yn cefnogi dysgu gydol oes.

**Pwrpas Cyhoeddus 3 – i ddangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, o'r safon uchaf ac unigryw.**

Mae S4C yn comisiynu rhaglenni drama, ffeithiol, adloniant, chwaraeon a phlant uchelgeisiol sy'n adlewyrchu bywyd Cymru tra'n bodloni safonau cynhyrchu o'r radd flaenaf. Wrth wneud hynny, mae'n helpu i gynnal cwmnïau cynhyrchu annibynnol, datblygu talent greadigol, a chefnogi cyflogaeth ledled Cymru.

Mae ymrwymiad S4C i safon yn dystiolaeth o'r gydnabyddiaeth y mae ein rhaglenni'n eu cael, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae cynnwys fel *Y Golau: Dŵr, Teth, ac Y Crwydryn* wedi cael eu cydnabod yn ddiweddar ar lefel-DU ac yn rhyngwladol. Mae gwerthfawrogiad y gynulleidfa yn tanlinellu'r effaith hon ymhellach. Mae S4C yn derbyn sgoriau gwerthfawrogiad cynulleidfa cryf yn gyson ac mae arolygon cynulleidfaoedd yn dangos lefelau uchel o foddhad, ymgysylltu a theyrngarwch. Mae'r cyfuniad hwn o ganmoliaeth beirniadol a chefnogaeth y gynulleidfa yn cadarnhau bod S4C yn darparu allbwn unigryw, o safon uchel sy'n atseinio'n ddwfn gyda gwylwyr yng Nghymru a thu hwnt.

**Pwrpas Cyhoeddus 4 – i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl genhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, i gefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig.**

O'r ddrama sebon *Rownd a Rownd,* wedi'i gosod a'i ffilmio yng ngogledd Cymru, i ddarllediadau o ddigwyddiadau cenedlaethol fel Eisteddfod yr Urdd, a'n rhaglen gylchgrawn nosweithiol *Heno*, a ddarlledir o Lanelli ac sy'n adrodd straeon gan gymunedau lleol ledled Cymru, mae S4C yn sicrhau bod cymunedau Cymreig yn weladwy ac yn cael eu gwerthfawrogi o fewn system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU.

Mae ein cynnwys yn adlewyrchu bywyd cyfoes ar draws Cymru drefol, gwledig ac ôl-ddiwydiannol, gan hyrwyddo cynrychiolaeth ddiwylliannol a chynhwysiant democrataidd.

Er mai pwrpas craidd S4C yw gwasanaethu cynulleidfaoedd Cymraeg, mae ei gwasanaethau hefyd yn cyrraedd llawer o wylwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae darllediadau o ddigwyddiadau chwaraeon mawr, digwyddiadau cenedlaethol fel yr Eisteddfod, a rhaglenni ffeithiol ac adloniant fel *Y Llais* yn denu cynulleidfaoedd o bob rhan o gymunedau ieithyddol yng Nghymru. Mae isdeitlau a darpariaeth ar-lein yn caniatáu i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i ymgysylltu â'n cynnwys, gan alluogi S4C i adlewyrchu diwylliant Cymru gyfoes a bywyd cenedlaethol i gynulleidfaoedd amrywiol ledled Cymru.

Mae cyrhaeddiad S4C hefyd yn ymestyn y tu hwnt i Gymru. Mae tua thraean o'r gwylio i gynnwys S4C ar BBC iPlayer ac S4C Clic yn dod o'r tu allan i Gymru, sy'n dangos bod cynnwys Cymraeg yn rhan o arlwy ehangach cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU ac yn denu cynulleidfaoedd ledled y DU gyfan.

Mae S4C yn llwyddo i sicrhau effaith economaidd sylweddol. Mae ymchwil annibynnol yn dangos ei bod yn cefnogi dros 2,500 o swyddi ledled Cymru ac wedi cyfrannu £150.3m mewn gwerth i economi Cymru yn 2024/25, gyda 57% yn cael ei wario y tu allan i Gaerdydd. Drwy gynnal gweithgarwch creadigol ar draws sawl rhanbarth, mae S4C yn cryfhau gwytnwch economaidd, yn datblygu sgiliau, ac yn sail i dwf hirdymor yn y sector creadigol yng Nghymru.

**Pwrpas Cyhoeddus 5 – adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.**

Mae adrodd straeon Cymreig yn rhoi llais rhyngwladol unigryw i'r DU. Mae dramâu fel *Pren ar y Bryn* wedi derbyn cydnabyddiaeth ryngwladol, mae pryniannau rhyngwladol o eiddo deallusol Cymreig fel *Bariau,* a chyd-gynyrchiadau fel *Gronyn Gobaith - Cymry CERN,* yn dangos y gall straeon sydd wedi'u gwreiddio yng Nghymru atseinio'n fyd-eang. Drwy allforio dramâu a rhaglenni ffeithiol, mae S4C yn gwella enw da creadigol a phŵer meddal y DU, gan ddangos ein lluosogrwydd diwylliannol. Mae'n cryfhau statws byd-eang cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU ac yn dangos ein bod yn arwain mewn cynnwys unigryw.

**Dibenion Cyhoeddus i'r Dyfodol**

Wrth i'r Adolygiad Siarter ystyried a ddylai'r Dibenion Cyhoeddus esblygu – gan gynnwys yr awgrym ar gyfer Diben Cyhoeddus newydd ar gyfer twf economaidd – mae S4C yn disgwyl chwarae rhan weithredol yn y trafodaethau hynny. O ystyried gallu S4C i gyfrannu at y Dibenion Cyhoeddus drwy gyllid ffi'r drwydded, fel yr amlinellir uchod, a'n cytundeb partneriaeth gyda'r BBC, dylid datblygu newidiadau mewn ymgynghoriad ag S4C i sicrhau bod cynulleidfaoedd a gwasanaethau Cymru yn parhau i gael eu cynrychioli.

Mae S4C yn cefnogi'r egwyddor o Ddiben Cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar dwf, ar yr amod ei fod wedi'i angori'n glir yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau, ac yn seiliedig ar bartneriaethau teg. Rhaid i dwf drosi i glystyrau creadigol cryfach, pŵer comisiynu, datblygu sgiliau, a buddsoddiad cynaliadwy yng Nghymru ac ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU. Dylai Diben Cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar dwf, sy'n seiliedig ar gydweithio a phartneriaethau, hefyd gydnabod cyfraniad penodol darlledu ieithoedd lleiafrifol i wydnwch economaidd, cynaliadwyedd diwylliannol, a chydlyniant cymdeithasol ledled y DU.

Mae Adolygiad Siarter y BBC yn rhoi cyfle i atgyfnerthu'r disgwyliadau ynghylch partneriaethau teg a buddiol i'r ddwy ochr. Byddai cydnabyddiaeth gliriach o gydweithio o fewn fframwaith y Dibenion Cyhoeddus – yn enwedig gyda darlledwyr ieithoedd lleiafrifol y gwledydd – yn sicrhau bod y BBC yn cefnogi lluosogrwydd, arloesedd a thwf cynaliadwy ledled y DU gyfan.

> ***Rhaid ymgynghori ag S4C cyn esblygu'r Dibenion Cyhoeddus, eu hangori yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau, a chydnabod cyfraniad darlledu ieithoedd lleiafrifol.***
> ***Dylai Diben Cyhoeddus newydd sy'n seiliedig ar dwf ymgorffori partneriaethau teg, sydd o fudd i'r ddwy ochr, a chefnogi twf cynaliadwy, lluosogrwydd ac arloesi ledled y DU.***

10 Mawrth 2026